Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Dirymu etc) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **15 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd** |

**Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Dirymu etc) (Ymadael â'r UE) 2020**

Yn unol â Rheol Sefydlog 30C, mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu Senedd Cymru pan fyddant wedi cydsynio i Weinidogion y DU wneud rheoliadau mewn perthynas ag Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd sy'n effeithio ar gymhwysedd datganoledig.

Yn achos y Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Dirymu etc.) (Ymadael â'r UE) 2020, ni ofynnwyd i Weinidogion Cymru roi eu cydsyniad, gan fod Llywodraeth y DU yn honni bod cymorth gwladwriaethol yn fater sydd wedi ei gadw'n ôl. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno gan nad oes cyfeiriad yn Erthygl 7(A) o Ddeddf Llywodraeth Cymru at y pwnc hwn.

Felly, rwyf wedi ystyried a ddylem roi cydsyniad i'r rheoliadau hyn a phenderfynu na ddylem wneud hynny.

Mae Rheoliadau 2020:

- yn dirymu rheoliadau a phenderfyniadau cymorth gwladwriaethol yr UE i'r graddau y maent yn rhan o gyfraith ddomestig;
- yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir;
- yn diwygio cyfeiriadau yn neddfwriaeth y DU at reoliadau cymorth gwladwriaethol yr UE sydd wedi'u dirymu.

A bod yn fanylach, mae'r rheoliadau yn dirymu'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

- **Hawliau o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr UE (TFEU)**

Mae'r Rheoliadau yn dirymu unrhyw hawliau, pwerau, atebolrwyddau, rhwymedigaethau, cyfyngiadau, rhwymedïau a gweithdrefnau a fyddai, ar ddiwedd y Cyfnod Pontio—

(a) Yn parhau fel arall yn rhinwedd adran 4(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018; a
(b) yn deillio o—
  (i) Erthygl 107(1) neu 108(3) o'r TFEU;
  (ii) Erthygl 346(1) o'r TFEU, i'r graddau y mae Erthygl 346(1) yn ymwneud ag Erthygl 107(1) neu Erthygl 108(3) o'r TFEU;
  (iii) Erthygl 61(1) neu 62(1) o gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd; neu
  (iv) Erthygl 123 o gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, i'r graddau y mae'n ymwneud ag Erthygl 61(1) neu 62(1) o gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd;

- **Hawliau o dan Gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd**

Mae'r Rheoliadau yn dirymu Atodiad 15 o gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, i'r graddau y byddai fel arall yn dod yn rhan o gyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 3(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

- **Rheoliadau'r UE**

Mae'r Rheoliadau yn dirymu'r Rheoliadau a ganlyn:

(a) Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 794/2004 dyddiedig 21 Ebrill 2004, sy'n gweithredu Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 659/1999 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Erthygl 93 o Gytuniad y CE;
(b) Rheoliad gan y Comisiwn (UE) Rhif 360/2012 dyddiedig 25 Ebrill 2012 ar gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd i gymorth de minimis a roddir i ymgymeriadau sy'n darparu gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol;
(c) Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1407/2013 dyddiedig 18 Rhagfyr 2013 ar gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd i gymorth de minimis;
(d) Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1408/2013 dyddiedig 18 Rhagfyr 2013 ar gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd i gymorth de minimis yn y sector amaethyddiaeth;
(e) Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 651/2014 dyddiedig 17 Mehefin 2014 yn datgan categorïau penodol o gymorth sy'n gydnaws â'r farchnad fewnol wrth gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad;
(f) Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 702/2014 dyddiedig 25 Mehefin 2014 yn datgan categorïau penodol o gymorth yn y sector amaethyddiaeth a'r sector coedwigaeth ac mewn ardaloedd gwledig sy'n gydnaws â'r farchnad fewnol wrth gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd;
(g) Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 717/2014 dyddiedig 27 Mehefin 2014 ar gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd i gymorth de minimis yn y sector pysgodfa a dyframaethu;
(h) Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1388/2014 dyddiedig 16 Rhagfyr 2014 yn datgan categorïau penodol o gymorth ar gyfer ymgymeriadau sy'n weithredol wrth gynhyrchu, prosesu a marchnata cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu sy'n

gydnaws â'r farchnad fewnol wrth gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd;

(i) Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 2015/1588 dyddiedig 13 Gorffennaf 2015 ar gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd i gategorïau penodol o gymorth gwladwriaethol llorweddol; a

(j) Rheoliad y Cyngor (UE) 2015/1589 ar 13 Gorffennaf 2015 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Erthygl 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

- **Penderfyniadau'r UE**

Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu'r penderfyniadau hyn gan yr UE

(a) Penderfyniad y Cyngor (2010/787/UE) dyddiedig 10 Rhagfyr 2010 ar Gymorth Gwladwriaethol i hwyluso cau pyllau glo anghystadleuol;

(b) Penderfyniad gan y Comisiwn 2012/21/UE dyddiedig 20 Rhagfyr 2011 ar gymhwyso Erthygl 106(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd i Gymorth gwladwriaethol ar ffurf iawndal gwasanaeth cyhoeddus a roddir i ymgymeriadau penodol sy'n gyfrifol am weithredu gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol; ac

(c) unrhyw benderfyniad arall gan yr UE sy'n rhan o gyfraith ddomestig ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu yn rhinwedd adran 3(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac a wneir o dan—
   (i) y rheoliad gweithdrefnol neu'r rheoliad sy'n rhagflaenu[1]; neu
   (ii) [Erthygl 108(2) o'r TFEU] [neu Erthygl 88 o Gytuniad y Gymuned Economaidd Ewropeaidd].

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn gwneud amryw o ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig eraill y dylai cydsyniad fod wedi'i geisio ar eu cyfer o dan y Cytundeb Rhynglywodraethol, sef yn benodol:

- Gorchymyn y Diwydiant Dŵr (Penderfynu ar Drosiant ar gyfer Cosbau) 2005
- Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010
- Rheoliadau'r Fframwaith Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

---

[1] Ystyr "rheoliad gweithdrefnol" yw Rheoliad y Cyngor (UE) 2015/1589 dyddiedig 13 Gorffennaf 2015 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Erthygl 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.
Ystyr "deddfwriaeth sy'n rhagflaenu" yw:

a) Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 994/98 dyddiedig 7 Mai 1998 ar gymhwyso Erthyglau 92 a 93 o'r Cytuniad sy'n sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd i gategorïau penodol o gymorth gwladwriaethol llorweddol (fel y cafodd effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu); a

b) Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 659/1999 dyddiedig 22 Mawrth 1999, sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Erthygl 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (fel y cafodd effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu);

Nid yw Llywodraeth y DU wedi ceisio cydsyniad ar gyfer y diwygiadau hyn.

Mae'r OS a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma:

https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348212570/contents

Effaith y Rheoliadau hyn fyddai dileu'r rheolau cymorth gwladwriaethol presennol sy'n darparu fframwaith sy'n sicrhau nad yw masnach yn cael ei hystumio gan gymhorthdal cyhoeddus heb ei reoleiddio i fentrau unigol ond nad yw'n rhoi unrhyw drefn gymorthdaliadau amgen yn ei lle.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd hyn yn achosi bwlch deddfwriaethol annerbyniol ym maes cymorth gwladwriaethol. Ychydig o eglurder y mae Llywodraeth y DU wedi'i roi ynghylch unrhyw gyfundrefn cymorthdaliadau yn y DU yn y dyfodol y mae'n bwriadu ei chyflwyno yn lle rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE, y tu hwnt i’r ffaith y bydd y DU yn bodloni rheolau cymhorthdal sylfaenol Sefydliad Masnach y Byd, unrhyw amodau ychwanegol sy'n deillio o Gytundebau Masnach Rydd a chanlyniadau ymgynghoriad arfaethedig yn 2021. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn amhosibl rhoi cydsyniad i’r Rheoliadau hyn, ar sail gwybodaeth, gan nad oes digon o wybodaeth ar gael ynghylch ffurf cyfundrefn rheoli cymhorthdal y DU ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

Felly, rydym wedi hysbysu Llywodraeth y DU bod ei methiant i ofyn am ein cydsyniad yn groes i'r Cytundeb Rhynglywodraethol a'n bod yn atal ein cydsyniad.